THINK

Rhwydwaith Ymchwil Integredig Trafnidiaeth ac Iechyd

the Transport and Health Integrated research NetworK

# Rhwydwaith Ymchwil Integredig Trafnidiaeth ac Iechyd THINK

1872 PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY


GIG CYMRU NHS WALES Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru Health and Care Research Wales

Ariennir gan Lywodraeth Cymru Funded by Welsh Government

## 2023 - 2024 Adroddiad blynyddol






# Tabl Cynnwys


01 Matrics Craidd

02 Cyflwyniad gan Gyd-gyfarwyddwyr THINK

03 Cwrdd â'r tîm

05 Ffowndri THINK

06 Academi THINK

08 Cyflwyniadau a gwaith

10 Cronfa Prosiectau Bach Materion Trafnidiaeth mewn Cymunedau

14 Ymwneud â THINK

15 Ble nesaf?




# Metrigau Craidd

Cyfnod adrodd: **2023/2024**

**Gwobr seilwaith Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru i'r grŵp**

Cyllid uniongyrchol a ddyfarnwyd **£139434**

Swyddi a grëwyd drwy gyllid uniongyrchol **1**

## Grantiau a enillwyd yn ystod y cyfnod adrodd

| Grantiau a enillwyd | Dan arweiniad y grŵp | Grŵp yn cydweithio |
|---|---|---|
| Nifer | 0 | 0 |
| Gwerth | £0 | £0 |
| Cyllid i Gymru | £0 | £0 |
| Cyllid i grŵp | £0 | £0 |
| Swyddi ychwanegol a grëwyd ar gyfer Cymru | 0 | 0 |
| Swyddi ychwanegol a grëwyd ar gyfer grŵp | 1 | 0 |

**9** Nifer y cyhoeddiadau

**9** Nifer y digwyddiadau ymgysylltu â'r cyhoedd

**0** Nifer y cyfleoedd i'r cyhoedd gymryd rhan

# Cyflwyniad gan Rwydwaith Ymchwil Integredig Trafnidiaeth ac Iechyd - THINK Cyd-gyfarwyddwyr





Rydym yn dechrau ar ein blwyddyn olaf o gyllid i THINK gan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru. Rydyn ni wrth ein bodd â'r diddordeb y mae THINK wedi'i greu mewn trafnidiaeth ac iechyd.

Cafodd THINK ei sefydlu er mwyn

- Cynhyrchu gwybodaeth newydd mewn trafnidiaeth ac iechyd (cyfoethogi'r rhwydwaith)
- Cynyddu gwybodaeth a sgiliau mewn trafnidiaeth ac iechyd (gwella'r rhwydwaith)
- Cynhyrchu mwy o ddealltwriaeth ymysg gweithwyr proffesiynol a'r cyhoedd yn gyffredinol o'r berthynas rhwng trafnidiaeth ac iechyd

Er mwyn cyflawni hyn, roedd angen inni greu adnodd i ddod â phobl sy'n gweithio ym maes trafnidiaeth ac iechyd ynghyd. Mae yna drafod ers tro bryd ar bwysigrwydd dod â phobl at ei gilydd o'r ddwy ddisgyblaeth. Mae ein defnydd ar drafnidiaeth yn cael effaith ar ein hiechyd a'n lles ni ac eraill, ac mae'n hiechyd yn effeithio ar sut y gallwn ni ddefnyddio trafnidiaeth. Mae'r ddau wedi'u cydblethu a'u cysylltu ond anaml y cânt eu trafod ac anaml y cymerir camau ar y ddau gyda'i gilydd. Mae creu lleoedd i bobl yn y ddwy ddisgyblaeth ddod at ei gilydd wedi bod yn ganolog i feithrin cydweithredu i ddatblygu gweithgarwch ymchwil newydd ym maes trafnidiaeth ac iechyd, rhannu adnoddau a gwybodaeth a rhoi'r wybodaeth honno ar waith.

Mae'r adroddiad hwn yn nodi rhai o'n llwyddiannau allweddol o blith y cyfan a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Wrth symud ymlaen, bydd THINK yn parhau o dan y grŵp ymchwil ymbarél, y Ganolfan Trafnidiaeth a Symudedd (CeTraM) ym Mhrifysgol Aberystwyth (gweler https://cetram.aber.ac.uk/) ac rydym wedi bod yn falch iawn o gael cefnogaeth Prifysgol Aberystwyth, sy'n sicrhau bod rhywfaint o'r prosiect yn parhau i symud ymlaen: £33k a gafwyd yn flaenorol ar gyfer prosiect effaith, Trafnidiaeth, a Datblygiadau Effaith Carlam Iechyd (THAID) a thri phrosiect ymchwil newydd gan aelodau tîm THINK:

- Tekes, B. a Musselwhite, C. (2024) "Improving road safety in rural areas: An examination of human factors contribution to traffic safety climate". Prosiect a enillodd £2,000 gan Gronfa Arian Iro Canolbwynt Dyfodol Gwledig Prifysgol Aberystwyth.
- Tekes, B. a Musselwhite, C. (2024). "Beth rydyn ni'n ei feddwl o ddifrif am y gostyngiad cyflymder 20mya yng Nghymru? Astudiaeth X (Twitter)". Dyfarniad Prosiect o £2,000 gan Hyb Ein Byd sydd wedi'i alluogi gan Ddeallusrwydd Artiffisial, Prifysgol Aberystwyth.
- Bennett-Gillison, H., Wyn Hardy, H., Nicholass, A., Owen, R.. a Musselwhite, C. (2024). "User perceptions of shared walking spaces". Dyfarniad Prosiect o £2,000 gan Hyb Ein Byd sydd wedi'i alluogi gan Ddeallusrwydd Artiffisial, Prifysgol Aberystwyth.

Mae wedi bod yn bleser gweithio gyda chi i gyd yn ystod y cyfnod a ariannwyd gan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru ac edrychwn ymlaen at barhau i weithio gyda chi i gyd yn y dyfodol mewn rhyw ffordd neu'i gilydd

**Dr Sarah Jones, Iechyd Cyhoeddus Cymru a'r Athro Charles Musselwhite, Prifysgol Aberystwyth**

# Cwrdd â'r Tîm



### Cyd-gyfarwyddwyr

**Dr Sarah Jones** yw Cyd-gyfarwyddwr THINK ac Ymgynghorydd mewn Iechyd Cyhoeddus Amgylcheddol gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae gan Sarah ddiddordeb ers tro mewn anafiadau traffig ffordd ac anghydraddoldebau. Astudiodd anafiadau i gerddwyr sy'n blant yn ogystal ag amddifadedd ar gyfer ei PhD ac mae hi wedi bod yn eiriolwr dros gyflwyno Trwyddedu Gyrwyr Graddedig ers blynyddoedd lawer. Yn y blynyddoedd diwethaf, mae ei diddordeb wedi datblygu'n ehangach i ymdrin â'r cysylltiadau rhwng trafnidiaeth ac iechyd, gan gynnwys gwaith ar gyflwyno terfyn cyflymder diofyn o 20mya yng Nghymru

### Cyd-gyfarwyddwyr




**Mae'r Athro Charles Musselwhite** yn Athro Seicoleg ym Mhrifysgol Aberystwyth ac yn gyd-gyfarwyddwr THINK. Mae ei ymchwil yn cynnwys cymhwyso seicoleg i ddeall a gwella symudedd pobl, gan gynnwys y berthynas rhwng yr amgylchedd adeiledig a thrafnidiaeth ac iechyd a lles. Yn benodol, mae'n arbenigo mewn gerontoleg amgylcheddol, yn archwilio'r berthynas rhwng yr amgylchedd ac iechyd yng nghyfnodau diweddarach bywyd, gan gynnwys diogelwch pobl hŷn wrth ddefnyddio'r ffyrdd, rhoi'r gorau i yrru, lleihau ynysu ac unigrwydd a chreu cymdogaethau a chymunedau sy'n addas ar gyfer pob oed. Mae wedi gweithio fel Prif Ymchwilydd neu Gyd-ymchwilydd ar oddeutu 40 o brosiectau sy'n werth dros £25m o incwm ymchwil. Ar hyn o bryd, mae hefyd yn gyd-gyfarwyddwr y Ganolfan Ymchwil Heneiddio a Dementia (CADR), sy'n cael ei hariannu gan Lywodraeth Cymru drwy Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru. Mae CADR yn cyfuno gwaith ymchwil ar heneiddio gyda pholisi ac ymarfer ledled Cymru. Mae ganddo dros 65 o gyhoeddiadau ymchwil, sy'n cynnwys 5 llyfr. Mae'n Brif Olygydd Journal of Transport & Health Elsevier ac ar fwrdd golygyddol EnvisAGE Age Cymru a Research in Transportation Business & Management Elsevier. www.drcharliemuss.com

### Tîm Craidd THINK



**Mae Dr Lucy Baker** yn Ymchwilydd Cyswllt yn yr Ysgol Seicoleg, Prifysgol Aberystwyth. Bydd Lucy yn cefnogi gweithgareddau ymchwil THINK, gan gyfuno a rhannu gwybodaeth a thystiolaeth, ymgysylltu â'r cyhoedd a rhanddeiliaid, datblygu ceisiadau am gyllid a phortffolio o ymchwil a gweithgareddau i THINK ar gyfer y dyfodol. Diddordeb Lucy yw datblygu ymchwil sy'n archwilio sut y caiff anghydraddoldebau iechyd eu strwythuro, cysylltiad trafnidiaeth a chynllunio trefol gydag anghyfartaledd mewn iechyd, lles a gofal, a'r hyn y gallwn ei wneud i leihau anghydraddoldebau iechyd i roi ansawdd bywyd gwell i bawb. Mae gwaith ymchwil blaenorol Lucy wedi archwilio llafur platfform digidol yn India a sut mae'n gysylltiedig â thechnolegau arian newydd, gyda'r bwriad o gynyddu tegwch cymdeithasol datblygiadau arloesol, gwaith y dyfodol a'r defnydd o ddata mawr. Roedd ei doethuriaeth yn edrych ar drosglwyddo ymyriadau symudedd beicio i wledydd datblygol gyda'r gwaith maes yn digwydd yn Namibia.



Mae gan Burcu ddoethuriaeth mewn Seicoleg Traffig a Thrafnidiaeth ac MSc mewn seicoleg gymdeithasol. Mae ganddi brofiad gyda phrosiect diogelwch ar y ffyrdd Vision Zero yn Nhwrci fel yr uwch arbenigwr ar ymddygiad pobl. Mae ymchwil Burcu yn canolbwyntio'n bennaf ar seicoleg gymhwysol yn enwedig ym maes traffig a thrafnidiaeth, yr amgylchedd ac iechyd. Mae ganddi dros 30 o gyhoeddiadau ymchwil, gan gynnwys llyfr ar Seicoleg Traffig.

# Cwrdd â'r Tîm



**Amy Nicholass** yw'r Swyddog Prosiect a'r pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer ymholiadau i THINK. Mae gan Amy radd Meistr mewn Gwyddor yr Amgylchedd a chyn hyn bu'n rheoli prosiectau ymchwil yn ymwneud â heriau amgylcheddol ac iechyd wrth weithio yn Sefydliad Arweinyddiaeth Cynaliadwyedd Prifysgol Caergrawnt ac yn rhan o dîm polisi Eunomia Research and Consulting. Mae Amy wedi rheoli dau rwydwaith blaenorol - ClimateWise a Go Green, gan weithio gyda channoedd o fusnesau i hwyluso'r gwaith o rannu eu gwybodaeth a'u profiad. Mae ganddi ddiddordeb arbennig mewn edrych ar drafnidiaeth ac iechyd o safbwynt systemau rhyng-gysylltiedig. Mae gan Amy hefyd lawer o brofiad o drefnu digwyddiadau ymgysylltu ar-lein ac wyneb yn wyneb gydag ymarferwyr a'r cyhoedd.







Ffowndri THINK
*atgyfnerthu*

Cynhyrchu gwybodaeth newydd ym maes trafnidiaeth ac iechyd (gan gyfoethogi'r rhwydwaith).Mae'r ffowndri'n cefnogi dau faes gwaith gwahanol:
**(1)** Cefnogaeth i ymchwilwyr ac ymarferwyr weithio'n systematig gyda'i gilydd i ddatblygu, cyflwyno ac ennill cyllid newydd ar gyfer ymchwil.
**(2)** Cefnogi ymchwil i bolisi ac ymarfer drwy weithdai gyda rhanddeiliaid allweddol gyda'r nod o sicrhau'r effaith fwyaf bosib.

## Gweithgareddau Datblygu Ymchwil – Archwiliadau Ymchwil sydd ar eu hanner yn y Ffowndri

1. Rôl dysgu peirianyddol, synwyryddion a thechnoleg arall megis arwyddion y gellir eu haddasu wrth rymuso diogelwch cerddwyr, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig sydd heb balmentydd. Diweddariad - Rydym wedi sicrhau grant bach gan y Ganolfan Deallusrwydd Artiffisial ym Mhrifysgol Aberystwyth i archwilio methodoleg ffilmio ar gyfer dal profiad cerddwyr o wahanol fathau i weld sut mae'r cyhoedd yn ymgysylltu â'r ffilmiau ac a ydyn nhw'n meithrin empathi.
2. Cefnogaeth grŵp llywio i awduron rhanbarth y Siarter Teithio Iach yn y Canolbarth a'r Gorllewin. Wedi darparu cymorth ar ffurf hwyluso a chynllunio i ganiatáu dull cyd-ddylunio ar gyfer ymrwymiad i'r Siarter gyda'r Ganolfan Ddeialog a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda.

Mae llawer o ddigwyddiadau THINK yn cael eu recordio ac ar gael ar sianel YouTube Rhwydwaith Ymchwil Integredig Trafnidiaeth ac Iechyd - YouTube

Mae holl ddigwyddiadau THINK wedi'u hariannu'n llawn, ac felly maen nhw ar gael am ddim i unrhyw un gael mynediad atynt ac mae llawer yn digwydd ar-lein.

# Academi THINK

*cyfoethogi*

Cynyddu gwybodaeth a sgiliau ym maes trafnidiaeth ac iechyd (gan wella'r rhwydwaith).

Mae'r Academi yn cynnal y meysydd gwaith canlynol:

(1) Crynodebau mewn iaith glir o ganfyddiadau ymchwil ar gyfer ymarfer a pholisi.
(2) Cyfres o seminarau ar drafnidiaeth ac iechyd.
(3) Presenoldeb mewn cynadleddau
(4) Cynhadledd Flynyddol THINK
(5) Cefnogi anghenion hyfforddi gweithwyr proffesiynol sy'n newydd i feysydd trafnidiaeth ac iechyd, gan gynnwys
a. Gweithdy datblygiad proffesiynol parhaus blynyddol
b. Cymorth hyfforddiant pwrpasol
c. Cynllun mentora systematig gydag ymchwilwyr profiadol
(6) Gwefan gyda storfa o wybodaeth
(7) Presenoldeb ar y cyfryngau cymdeithasol – Twitter, Facebook a LinkedIn.
(8) Deunydd hyrwyddo i gefnogi gwybodaeth a thwf THINK

## Cynyddu'r rhwydwaith a defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol

211 o Aelodau rhwydwaith

Bwletin Newyddion Mis Mai ac Mis Hydref

Mae gennym 87 o aelodau LinkedIn

9 digwyddiad THINK newydd - gweithdai, seminarau a chynhadledd hybrid

Mae gennym 328 o ddilynwyr ar Twitter

**9 blog newydd THINK**

https://think.aber.ac.uk/a-just-transition/
https://think.aber.ac.uk/our-new-guide-for-bystander-trainers-and-campaigners-is-now-available-to-download/
https://think.aber.ac.uk/the-game-changing-tactile-maps-made-for-people-with-visual-impairments/
https://think.aber.ac.uk/q-methodology-as-a-useful-method-to-research-transport/
https://think.aber.ac.uk/systems-mapping-active-travel-for-all-in-the-uk/ https://think.aber.ac.uk/summary-of-thinks-public-agenda-setting-workshops-2023/
https://think.aber.ac.uk/the-human-factor/
https://think.aber.ac.uk/the-e-move-trial-e-cycling-practices-in-rural-welsh-communities-and-the-potential-for-low-carbon-transport-transitions/
https://think.aber.ac.uk/why-do-people-use-age-connects-morgannwg-for-transport/

# Academi THINK
*cyfoethogi*

## Presenoldeb mewn cynadleddau




Musselwhite, C.B.A. (2023). Exploring issues around transport and mobility for an ageing population from a social psychology perspective. Cyflwyniad drwy wahoddiad i'r Consortiwm Heneiddio Gweithredol yn Asia a'r Môr Tawel (ACAP), Gweminar Mobility and Transportation in an Ageing Society, ar-lein, 30 Medi.

Musselwhite, C.B.A. (2023). Improving Mobility in Marginalised Communities, Cynhadledd Grŵp Trafnidiaeth Astudiaethau Prifysgol, Caerdydd. 11 Gorffennaf.

## Cefnogi anghenion hyfforddi gweithwyr proffesiynol sy'n newydd i feysydd trafnidiaeth ac iechyd

Rydym yn bresennol ac yn cefnogi gwaith Llywodraeth Cymru wrth gyflawni'r prif themâu a ganlyn mewn trafnidiaeth:

- Gweithgorau Rhanddeiliaid Trafnidiaeth Wledig Llywodraeth Cymru oedd yn cael eu rhedeg gan Lee Waters.
- Tasglu Hawliau Anabledd Llywodraeth Cymru ar drafnidiaeth.
- Cyflwyno terfyn cyflymder diofyn 20mya Llywodraeth Cymru yn enwedig o ran ymchwilio a gwerthuso a chyfathrebu.
- Grŵp cyfeirio Her 4 Cymru Sero Net 2035 'Sut y gellid cysylltu pobl a lleoedd ledled Cymru erbyn 2035'. Gwahoddwyd tîm cyflawni THINK i ymuno â'r grŵp hwn a chynrychiolodd Amy y tîm mewn cyfarfodydd. Mae aelodau THINK wedi cael gwahoddiad i gyfarfodydd bwrdd crwn.

## Mentora Academi THINK

Mae un fentoriaeth wedi digwydd hyd yn hyn.

*"I have felt immensely privileged to be a mentor as part of the THINK programme. My mentee and I have come together to chat, talk through challenges and praise the positives. It has been a learning journey for me and I have felt that we have achieved much over the time we have had together. I am very grateful to my mentee for her honesty and openness. It has been a very positive experience and I would encourage others to take up this opportunity."*

*Emma Bingham*

*"For me, Emma's mentorship has been very supportive and rewarding. I would recommend looking for an industry mentor because you get to hear a different perspective and consider the big picture. Emma has introduced me to community transport, which is an element of the transport system that remains fairly hidden to people who don't use it, and a lifeline to those who do. It's all about connections – transport, health, community... and talking about these things is very motivating to me. I was at risk of dropping out of an apprenticeship before THINK offered me the opportunity to talk with Emma. Being mentored, and learning from other THINK projects, has helped me to develop my interest and sustained my motivation through extended and complex projects".*

Madeleine Boase

# Cyflwyniadau a gwaith dylanwadu THINK

Dr Sarah Jones:

- Wedi cwblhau'r Bennod ar Bolisi ac Iechyd Trafnidiaeth – a dderbyniwyd i'w gyhoeddi yn y llawlyfr polisi.
- Wedi cwblhau'r bennod ar 20mya ar gyfer 'Health on the Move II'
- Wedi cwblhau adolygiad cwmpasu ar gyfer y Sefydliad Diogelwch Ffyrdd gan nodi blaenoriaethau ar gyfer ymchwil diogelwch ar y ffyrdd o safbwynt anghydraddoldebau.

Lucy Baker:

- Wedi cwblhau pennod ar Gydraddoldeb, Trafnidiaeth ac Iechyd ar gyfer y llyfr 'Health on the Move II'.

CYFLWYNIADAU

- Tekeş, B. Cyflwyniad Llafar yn y Gweithdy "How to deal with anger in traffic?". Cynhadledd THINK Rhagfyr 2023
- Tekeş, B. Cyflwyniad Llafar, "Human Factor in Traffic" yn Adran Seicoleg Prifysgol Aberystwyth

## Cyhoeddiadau

Sitinjak, C., Simic, V., Ismail, R., Musselwhite, C. a Bacanin, N. (2024) Psychometric components of the social acceptance toward end-of-life vehicles policy: A case study of Indonesia, Transport Policy, 148, 206-218. https://doi.org/10.1016/j.tranpol.2024.01.019

Tekes, B. a Musselwhite, C. (2023). How far are e-scooters healthy transport? Journal of Transport & Health, 33(20), 101725. http:/doi.org./10.1016/j.jth.2023.101725

Musselwhite, C. (2023). A community health approach to community transport, Journal of Transport & Health, 30, 101621, ISSN 2214-1405, https://doi.org/10.1016/j.jth.2023.101621

## Sylw yn y cyfryngau

Ymddangosodd Charles Musselwhite ar drafodaeth ar BBC Radio Wales ynghylch tra-arglwyddiaeth ceir yn y gymdeithas (52 mun) (20 Chwefror 2024).

Papurau newydd

https://www.abergavennychronicle.com/university-grants-for-monmouthshire-and-powys-projects-663760%20

https:/www.brecon-radnor.co.uk/news/llangattock-community-transport-project-gets-funding-boost-663595

# Cyflwyniadau a gwaith dylanwadu THINK

## Cyfraniadau mewn cyfarfodydd

Gwaith cydweithredol yr aelodau sy'n parhau:

- Mae gweithgor Cydgynhyrchu THINK yn dal i gyfarfod a thrafod profiad yr aelodau a'u harchwiliadau gyda chyd-gynhyrchu yng nghyd-destun trafnidiaeth ac iechyd.
- Mae gweithgor THINK ar wella safonau cerdded yn symud ymlaen tuag at gasglu data i ysgrifennu dogfen briffio am gerdded yn agos at wasanaethau ac amwynderau er mwyn hysbysu swyddogion awdurdodau lleol yn well.
- Mae Grŵp Llywio Siarter Teithio Iach Gorllewin Cymru yn dal i gyfarfod yn rheolaidd i ddatblygu'r 12-14 o ymrwymiadau rhanbarthol a ddewiswyd ganddynt (rhai ar y cyd a rhai yn ddewisol) gyda chymorth ar ffurf hwyluso trafodaethau a mewnbwn gan arbenigwyr THINK
- Mae THINK wrthi'n helpu Cyngor Sir Powys i archwilio opsiynau ar gyfer ei adolygiad o drafnidiaeth.
- Mae THINK yn parhau i gefnogi Grŵp Gweithredu Bysiau Ceredigion gyda'u hawydd i lansio corff strategol i gydlynu gwasanaethau bysiau gwell ar draws Ceredigion.
- Bydd gan THINK sioe deithiol yn yr haf yn ymweld â gwahanol gymunedau i'w holi am eu hanghenion trafnidiaeth.
- Mae THINK yn helpu PACTO – Cymdeithas Sefydliadau Trafnidiaeth Gymunedol Sir Benfro – gyda'u gwaith drwy gysylltiadau ag ymchwilwyr ym Mhrifysgol Aberystwyth.



Academi THINK

*cyfoethogi*

## Cronfa Prosiectau Bach Materion Trafnidiaeth mewn Cymunedau



Ym mis Hydref 2022 lansiodd THINK Gronfa Prosiectau Bach Materion Trafnidiaeth yn y Gymuned o hyd at £2000 yng nghynhadledd Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru yng Nghaerdydd.

Roeddem yn gwahodd cynigion ar y rhan y mae trafnidiaeth yn ei chwarae wrth greu cymunedau iach. Croesawyd prosiectau arbrofol gan dimau rhyngddisgyblaethol/o sawl cefndir a daeth hyn â phobl o wahanol gefndiroedd ynghyd (e.e. cymunedau, elusennau a'r trydydd sector, academyddion, byrddau iechyd, awdurdodau lleol) i gyd-weithio i gynorthwyo "cymuned wledig sydd mewn angen" sydd â "mater penodol sy'n gysylltiedig â thrafnidiaeth yng nghefn gwlad".

Beth yw cymuned wledig mewn angen?

Roeddem yn diffinio cymuned wledig mewn angen fel unrhyw gymuned mewn ardal wledig sydd â phroblem gysylltiedig â thrafnidiaeth, neu iechyd a lles neu'r ddau.

Er enghraifft, gallai fod yn:

- cymuned ddaearyddol megis tref fach, pentref neu stryd,
- a/neu'n gymuned a ddiffinnir gan ddemograffeg gymdeithasol neu gefndir, er enghraifft pobl hŷn, plant, y gymuned LHDT+ mewn ardaloedd gwledig,
- a/neu'n gymuned a ddiffinnir yn ôl eu dulliau teithio (beicwyr, cerddwyr ac ati) i gyrraedd ardal wledig.

Gellir diffinio'r mater sy'n ymwneud â thrafnidiaeth gyda'r disgrifiadau canlynol neu gyfuniad ohonynt:

- Un sy'n effeithio ar iechyd gan gynnwys naill ai anafiadau/marwolaethau (a achosir gan ddamweiniau),
- llygredd aer/sŵn,
- gwella teithio llesol,
- cymunedau sydd wedi'u gwahanu a lles.

Gellir diffinio'r broblem fel rhywbeth megis ceisio lleihau terfynau cyflymder neu gysylltu cymunedau â llwybrau cerdded/beicio oddi ar y ffyrdd.

Bwriadwyd i'r grant gael ei ddefnyddio fel cam tuag at gyflawni rhagor o ymchwil, er mwyn cael dealltwriaeth bellach am y mater neu'r broblem benodol, i'w ddiffinio'n fanylach a dechrau creu strategaethau neu ymyriadau sy'n gweithio tuag at liniaru neu leihau'r broblem.

Roedd grant o hyd at £ 2000 ar gael i bob prosiect i gefnogi'r gweithgarwch. Dewiswyd 4 prosiect i'w hariannu gyda'r arian yn cael ei ddefnyddio gan y prosiectau tuag at gostau cynnal digwyddiadau, gweithdai neu gasglu gwybodaeth er mwyn ceisio cyrraedd y nod.

# Prosiectau a enillodd Ddyfarniadau Materion Trafnidiaeth yn y Gymuned

Enillwyr Dyfarniad Materion Trafnidiaeth mewn Cymunedau Gwledig 2023.

Cawsom naw cais am ein dyfarniad Materion Trafnidiaeth mewn Cymunedau Gwledig o hyd at £2000 gyda dyddiad cau ar gyfer cyflwyno cais yn haf 2023.

Rhagor o fanylion yma: https://think.aber.ac.uk/award-recipients-2023/

Mae'n bleser gan y Rhwydwaith Ymchwil Integredig Trafnidiaeth ac Iechyd gyhoeddi ei fod yn cefnogi pedwar prosiect sy'n mynd i'r afael â rôl trafnidiaeth wrth greu cymuned iach. Dyma'r prosiectau a ddewiswyd:

## 1. Archwilio Gwasanaeth Bws a Beiciau Trydan i'r Chwe Chyngor yn y dyfodol

Dan arweiniad Kate Inglis, Cynghorydd Cymuned ar Gyngor Cymuned Llangatwg

Mae Llangatwg yn bentref gwledig gyda thua 1000 o drigolion yn Nyffryn Wysg ym Mhowys. Ceir problemau cynyddol yno gyda nifer y ceir a dim digon o le parcio. Mae'r drafnidiaeth gyhoeddus bresennol yn yr ardal yn gyfyngedig iawn a does dim digon o wasanaethau'n rhedeg i'r pentrefi llai. Nid oes digon o ddefnydd yn cael ei wneud o'r gwasanaeth presennol a hoffem ddeall pam fod hyn yn digwydd.
Y dull allweddol yw cynnal arolwg/holiadur lleol, wedi'i gynllunio a'i ddadansoddi gan arbenigwr ymgynghorol proffesiynol mewn trafnidiaeth gymunedol. Byd hyn yn helpu Cyngor Cymuned Llangatwg i ddeall y galw, cyrhaeddiad a llwybrau corfforol, dulliau gweithredu ac yn helpu gydag achos busnes i gefnogi cais i ariannu prosiect mwy er mwyn sefydlu gwasanaeth E-fws ac E-feiciau Cymunedol lleol.



Image: iStock/travellinglight


Image: iStock/PaulMaguire

## 2. Edrych ar y gobaith o symudedd e-ficro a rennir yn India Wledig

Dan arweiniad Dr. Anshuman Sharma, Athro Cynorthwyol yn Sefydliad Technoleg India (BHU) a Dr Yasir Ali, Darlithydd, Grŵp Trafnidiaeth a Chynllunio Trefol, Ysgol Pensaernïaeth, Adeiladu a Pheirianneg Sifil, Prifysgol Loughborough

Bydd y prosiect hwn yn ymchwilio i'r cymhellion a'r rhwystrau i fabwysiadu dulliau micro-symudedd trydan a rennir (megis rickshaws trydan) yng nghefn gwlad India trwy gynnal arolwg, gan ystyried nodweddion demograffig-gymdeithasol, fel grŵp oedran, rhyw, statws economaidd, statws priodasol, ac addysg. Bydd y prosiect hwn yn ymchwilio i'r ffactorau sy'n annog trigolion gwledig i ddefnyddio dulliau micro-symudedd trydan a rennir, a'r ffactorau sy'n eu hatal. Bydd y prosiect hefyd yn dyfeisio ymyriadau er mwyn lliniaru'r rhwystrau ac annog defnyddio dulliau micro-symudedd trydan a rennir.

### 3. Mentrau Cludiant Cymunedol – Gyrwyr Gwirfoddol (rhwystrau i wirfoddoli)

Dan arweiniad Rhian Hathaway, Swyddog Grantiau, Canolfan Pontydd ac Andrea Charles, Rheolwr Prosiect Lles Cymunedol

Mae'r diffyg opsiynau trafnidiaeth gyhoeddus yng nghefn gwlad Sir Fynwy yn creu her sylweddol i drigolion sy'n ceisio defnyddio gwasanaethau hanfodol a chynnal cysylltiadau cymdeithasol. Mae'r cynllun ceir cymunedol, er ei fod yn ateb addawol, yn cael anhawster yn recriwtio gyrwyr gwirfoddol, sy'n golygu bod ei allu i ateb y galw'n cael ei rwystro. Nod y prosiect ymchwil hwn, sy'n cynnwys arolygon a chyfweliadau manwl, yw canfod a mynd i'r afael â'r rhwystrau i recriwtio gwirfoddolwyr, gan wella effeithiolrwydd a chyrhaeddiad y cynllun ceir cymunedol yn y pen draw. Drwy fynd i'r afael â'r materion yma, bydd y prosiect yn cyfrannu at wella symudedd, meithrin ymgysylltiad cymunedol, a gwella lles cyffredinol trigolion Sir Fynwy.

## Diweddariadau ar Brosiectau Ymchwil

### Bws Rhywedd+

- Mae Dr Lucy Baker wrthi'n gweithio mewn partneriaeth â Stagecoach, Trafnidiaeth Cymru a Chydffederasiwn Trafnidiaeth Teithwyr Cymru a Defnyddwyr Bysiau Cymru gyda Chymorth i Ferched Cymru i helpu staff rheoli a staff rheng flaen i ddeall pwysigrwydd creu mannau diogel i deithwyr er mwyn galluogi menywod a phobl fregus i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus, a'r effaith gadarnhaol y gall hyn ei chael ar les pobl. Mae Lucy yn gwneud hyn drwy ddatblygu dogfennau cyfarwyddyd i godi ymwybyddiaeth a rhaglen hyfforddi a dreialwyd gyda phartner yn y diwydiant, sef Stagecoach. Mae Trafnidiaeth Cymru yn ystyried sut y gellir gweithredu'r hyfforddiant hwn yn ehangach gyda newid mewn polisi a llywodraethu yn fwy perthnasol i wasanaethau bysiau a phrofiad y cwsmer. Mae Trafnidiaeth Cymru wedi rhoi hyfforddiant ar ddiogelwch menywod ar waith fel rhan o'u hyfforddiant mewn profiad cwsmeriaid a ddarperir drwy eu contractau Traws Cymru diweddar a gyflwynwyd ym mis Hydref yn Abertawe, 2023 ac yn Aberystwyth yn Rhagfyr-Ionawr 2024.
- Defnyddiwyd y data o'r cyfweliadau i ddatblygu astudiaethau achos o brofiad byw ynghyd â chanllaw ar gyfer y rhai sy'n hyfforddi gwylwyr i ymyrryd ac ymgyrchwyr. Bydd yr astudiaethau achos hyn hefyd yn cael eu hatgynhyrchu a'u teilwra i gynulleidfa o yrwyr bysiau a hyfforddwyr gyrwyr. Gellir dod o hyd i'r canllaw hyfforddi gwylwyr yma: https://think.aber.ac.uk/our-new-guide-for-bystander-trainers-and-campaigners-is-now-available-to-download
- Mae'r rhaglen hyfforddi yn cael ei datblygu mewn cydweithrediad â Stagecoach a bydd yn cael ei rhedeg o fis Mai-Mehefin.

## Gwella diogelwch ar y ffyrdd yng nghefn gwlad: Archwiliad o gyfraniad ffactorau dynol at hinsawdd diogelwch traffig

Dyfarnwyd cyllid ar gyfer y prosiect hwn gan Gronfa Arian Iro Canolbwynt Dyfodol Gwledig Prifysgol Aberystwyth i Dr Burcu Tekes a Dr Charles Musselwhite ac mae hyn yn mynd rhagddo drwy ddatblygu dyluniad y prosiect.

Yn y prosiect hwn, rydym yn ceisio gwella diogelwch ar ffyrdd cefn gwlad a hynny drwy archwilio hinsawdd diogelwch traffig, dicter (a mynegiant) gyrwyr, ymddygiad gyrwyr, a chymryd risg yng nghefn gwlad. Fel arfer, mae gan ardaloedd gwledig ledled y Deyrnas Unedig niferoedd uwch o wrthdrawiadau traffig ffyrdd sy'n cynnwys ceir, beiciau modur a beiciau. Yn lleol, Powys a Cheredigion sydd â'r cyfraddau uchaf o wrthdrawiadau traffig ffyrdd yng Nghymru. Er bod y ffyrdd cul, troellog sydd â chyfyngiadau cyflymder cyflym wrth gwrs yn ffactor sy'n cyfrannu at wrthdrawiadau yng nghefn gwlad, mae ymddygiad dynol (sef ffactorau dynol) yn broblem mewn 95% o wrthdrawiadau, a dyna'r unig achos mewn 2/3 o wrthdrawiadau. Gan hynny, bydd yr astudiaeth hon yn edrych ar y ffactorau dynol hyn drwy nodi agweddau defnyddwyr ffyrdd at ddiogelwch, derbynioldeb ac ymddygiad drwy holiaduron gyda'r modurwyr mewn ardaloedd gwledig a threfol gan nodi nodweddion gwledig unigryw mewn perthynas â hinsawdd diogelwch traffig, dicter (a mynegiant) gyrwyr, ac ymddygiadau sy'n creu risg. Yn fwy penodol, nod yr astudiaeth yw ystyried a yw gyrwyr sy'n byw ac yn gyrru'n amlach yng nghefn gwlad Cymru yn gyrru mewn natur fwy ymosodol, yn ymddwyn mewn ffyrdd mwy peryglus mewn traffig a sut maent yn canfod hinsawdd traffig o'u cymharu â'r rhai mewn ardaloedd trefol. Yn yr ymchwil hon, defnyddir data demograffig i nodi grwpiau o bobl sy'n wynebu mwy o risg o gael damwain mewn ardaloedd gwledig.

## Beth rydyn ni'n ei feddwl o ddifrif am y gostyngiad cyflymder 20mya yng Nghymru?

Nod yr astudiaeth hon oedd dadansoddi barn y cyhoedd ar y newidiadau yn y rheolau cyflymder a gyflwynwyd yn ddiweddar yng Nghymru a sut mae'r safbwyntiau hyn wedi newid dros amser trwy ddefnyddio cofnodion X (Twitter gynt). Yn ôl y Ddamcaniaeth Ymddygiad wedi'i Gynllunio a gynigiwyd gan Ajzen (1985), mae unigolion yn debycach o ymgymryd ag ymddygiad pan fydd eu hagweddau, eu normau cymdeithasol, eu rheolaeth ymddygiadol canfyddedig, a'u bwriadau'n cyd-fynd â'r ymddygiad hwnnw. Amcan yr astudiaeth hon yw datgelu agweddau at ostwng terfynau cyflymder i 20 mya a deall y rhwystrau canfyddedig y mae unigolion yn eu hwynebu. Mae yna astudiaeth flaenorol gan Semwal et al. (2021) ar gofnodion X mewn dwy ddinas yn y Deyrnas Unedig ynghylch lleihau cyflymder i 20 mya, ond mae gan yr astudiaeth bresennol ddwy agwedd wahanol a fyddai'n ddefnyddiol ar gyfer y llenyddiaeth gysylltiedig. Yn gyntaf, yr astudiaeth bresennol fyddai'r astudiaeth gyntaf ar leihau cyflymder yn benodol yng Nghymru. Cafodd y newid yn y terfyn cyflymder ei roi ar waith ym mis Medi 2023, felly does dim astudiaeth arall yn esbonio'r sefyllfa bresennol yng Nghymru. Yn ail, defnyddiodd yr astudiaeth flaenorol ddadansoddiad sentimental a oedd yn darparu dosbarthiad cadarnhaol-negyddol-niwtral o'r cofnodion X. Er ei fod yn ddull craff iawn i'w ddefnyddio, mae dadansoddiad sentimental yn gyfyngedig. Yn yr astudiaeth hon, byddwn yn gallu dadansoddi'r data mewn dau bersbectif gwahanol: yn gyntaf, dadansoddiad sentimental yn seiliedig ar ddosbarthiad o'r agweddau fel y soniwyd uchod, ac yn ail, model LDA wedi'i seilio ar y geiriau yn y cofnodion X, sy'n rhoi cyd-destun y cofnodion X. Hefyd, mae'r astudiaeth hon yn archwilio'r newid a oedd yn ddibynnol ar amser yn y newid yn y rheol cyflymder a ddaeth i rym ar 17 Medi 2023. Gan hynny, mae'r amseru arfaethedig yn bur ffafriol o ran mesur yr wythnos gyntaf y daeth y gyfraith i rym ac wedyn mesur yr ymateb ar ôl cyfnod o ryw 6 mis. Ariannwyd yr astudiaeth hon gan Hyb Ein Byd sydd wedi'i alluogi gan Ddeallusrwydd Artiffisial ym Mhrifysgol Aberystwyth.

## Ymwneud â THINK

*integreiddi*


Datblygu dealltwriaeth gweithwyr proffesiynol a'r cyhoedd o'r berthynas rhwng trafnidiaeth ac iechyd (gan integreiddio'r rhwydwaith). Bydd elfen Ymwneud yn darparu adnoddau i ddatblygu cyfleoedd i gydweithio drwy:
(1) Gefnogi cyfleoedd am secondiadau i bobl o fyd ymchwil ym maes polisi neu mewn gwaith ymarferol er mwyn iddynt gael gweithio gyda'i gilydd ar brosiect bach yn ymwneud â thrafnidiaeth ac iechyd.
(2) Cynnal sioeau teithiol rhyngweithiol gyda'r cyhoedd i helpu i flaenoriaethu materion allweddol, a chyhoeddi deunydd y canlyniadau, yn ogystal â chrynodebau i'r cyhoedd.

## Secondiad

Lansiwyd secondiad cyntaf THINK ym mis Hydref 2023 i'w gwblhau erbyn diwedd Mehefin 2024 ac roedd yn gyfle i weithio ar brosiect ymchwil Ymarfer Cyffredinol / Gofal Sylfaenol yn y Canolbarth gydag Iechyd a Gofal Gwledig Cymru (RHCW).
Chwiliwyd am unigolyn a oedd yn cael ei gyflogi ar y pryd mewn sefydliad o fewn rhwydwaith THINK a fydd yn gweithredu fel Ymchwilydd i RHCW gan edrych ar drafnidiaeth a rhwystrau logistaidd i gael mynediad at ofal sylfaenol yn y Canolbarth.
Mae Iechyd a Gofal Gwledig Cymru, sy'n gydweithrediad rhwng y tri bwrdd iechyd sy'n gweithredu ar draws y Canolbarth (Bwrdd Iechyd Hywel Dda, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Bwrdd Iechyd Addysgu Powys), wedi cael y dasg o wneud ymchwil i'r ddarpariaeth mewn ymarfer cyffredinol ar draws y Canolbarth, gan edrych ar enghreifftiau o'r arferion gorau o fodelau amgen o ddarparu ymyriadau gofal sylfaenol yng nghefn gwlad (ar gais Grŵp Rhanddeiliaid RHCW gyda chymeradwyaeth Cydbwyllgor Iechyd a Gofal Canolbarth Cymru: Adolygiad a Chynllun Gweithredu ar gyfer darpariaeth Ymarfer Cyffredinol / Gofal Sylfaenol ar draws y Canolbarth). Bydd rhan o'r gwaith yn golygu edrych ar bellter teithio cleifion i ganolfannau gofal sylfaenol ac unrhyw rwystrau logistaidd i gael mynediad at wasanaethau Gofal Sylfaenol. Bydd yr ail yn ategu'r elfen hon o'r ymchwil, gan weithio'n agos gyda Phennaeth Iechyd a Gofal Gwledig Cymru.
Bydd y darn hwn o waith yn rhoi cyfle ar gyfer gweithio ar draws sectorau, o bosibl rhwng y byd academaidd a gofal iechyd, a meithrin perthnasoedd gwaith sy'n elwa o drylwyredd ymchwil academaidd a mewnwelediad a gwybodaeth weithredol.
Roeddem yn falch iawn o benodi aelod o THINK, Dr Angela Curl o Brifysgol Otago, Uwch Ddarlithydd - Pūkenga Matua, Cyfarwyddwr Cwrs Ôl-raddedig, Iechyd y Cyhoedd, Cyd-gyfarwyddwr Grŵp Trafnidiaeth, Cymdeithas a'r Amgylchedd, Golygydd Materion Arbennig y Journal of Transport and Health

# Ble nesaf?

Mae'r diagram yn amlinellu cynnydd y rhwydwaith a pha mor bell rydyn ni wedi dod dros y blynyddoedd diwethaf. Gobeithio y bydd y gofod rydyn ni wedi'i greu ar gyfer cydweithio yn parhau yn y dyfodol ac ar ôlcyfnod cyllid Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru.




## Casgliad

Lle mae THINK wedi bod yn llwyddiannus iawn yw ein bod wedi dod o hyd i le i ddod â sefydliadau a grwpiau prysur iawn at ei gilydd i weithio ar drafnidiaeth ac iechyd. Nid oedd rhai o'r sefydliadau a'r grwpiau hyn wedi gweithio gyda'i gilydd o'r blaen, ond roedd rhai wedi gwneud a dyma ninnau yn cyflwyno lle iddyn nhw ganolbwyntio arno. Yn gyffredinol, mae tîm THINK yn dod o hyd i gyfleoedd newydd i ddod â dealltwriaeth newydd i weithwyr proffesiynol trafnidiaeth ac iechyd ac mae'r themâu allweddol sydd wedi dod i'r amlwg yn ystod y cydweithio hwn wedi cynnwys tegwch a chyfiawnder, cymuned a lle, dewisiadau trafnidiaeth iachach, gwledigrwydd a diogelwch cerbydau. Rydym yn parhau i helpu i ledaenu gwybodaeth am y pynciau hyn i gynulleidfaoedd newydd drwy'r adnoddau ar-lein, podlediad a digwyddiadau wedi'u recordio sydd ar gael ar sianel YouTube. Ac yn bwysig iawn, rydym yn helpu cymunedau i wneud eu hymchwil eu hunain er mwyn llywio'r ddarpariaeth drafnidiaeth yn eu hardaloedd. Mae wedi bod yn flwyddyn brysur a boddhaol i'r tîm ac rydym am ddiolch i bawb sydd wedi ymgysylltu a bod yn rhan o'n gwaith pwysig.

THINK

Rhwydwaith Ymchwil Integredig Trafnidiaeth ac Iechyd

the Transport and Health Integrated research NetworK

Mae THINK yn cael ei ddarparu mewn partneriaeth rhwng

1872 PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

Mae THINK yn cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru drwy Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru

Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru
Health and Care Research Wales

Ariennir gan Llywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

## Cysylltu â ni

**RHWYDWAITH YMCHWIL INTEGREDIG TRAFNIDIAETH AC IECHYD - THINK**

P5, Prifysgol Aberystwyth, Penglais, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3BF

+44 (0) 1970 628438

https://think.aber.ac.uk

think@aber.ac.uk

@TransportHealth